# Llên natur

**Bwletin 123   Mai 2018**

**gan gynnwys y bwletin i athrawon "Llygad y Dydd" (tudalen gefn)**



**Cwm Penmachno heddiw 9/4/18. Wedi gweld Cigfran a Hebog Tramor yn hedfan yma.** **Pierino Algieri**

## Terfysg Caerwrangon



*Photo by the Express and Star.*
Fig. 5.—Damage at Standeford, near Wolverhampton

Ddoe cawsom oddiwrth Hywel Thomas gopi o fwletin y “Survey of Thunderstorms in the British islands” (sef.1924) o’r enw *British Thunderstorms - continuing Summer Thunderstorms*, adroddiad blynyddol 1934 Cyfrol 2, rhan 1. Fedrwch chi ddychmygu’r fath gyhoeddiad heddiw? Mae’n debyg nad ail-ymddangosodd ar ôl y Rhyfel. Mi gafodd Hywel y gyfrol gan ei fodryb (oedd a mymryn o baranoia am fellt a tharannau!)


Dyma’r cofnod cyntaf o nifer i roi blas ar y cynnwys:


*“House struck by lightning at Slade Heath, Standeford, Near Wolverhampton, on August 28th, 1935.—This house was struck about 6-25 p.m. Mr. and Mrs. John Hammond, and others, were in a ground floor room when, with a sudden terrific explosion and immediate crack of thunder, the ceiling collapsed over them. They saw no flame, but one of the occupants felt heat on her face and her shoulder became numb. An observer outside reported that he saw a ball of fire, of which he had never seen a previous specimen, fall on the chimney. The air became filled with a sulphurous fume. The extent of the damage may be judged from Fig. 5 (Plate II, facing page 17 [uchod]). It will be seen that the entire gable end has been shattered. A path of a portion of the flash along the spouting and fall pipe can also be distinguished. Two walls of the house were cracked from top to bottom and holes were made in the brickwork in several places. Two doors on the first floor were blown off their hinges and only one pane of glass in the house remained unbroken. The garden was littered with debris and pieces of ruined furniture. Fortunately there was no fire. This storm was also responsible for other damage in Staffordshire. It moved slowly with a slight drift to S.S.E. and followed, approximately, the line of the Penk Valley before reaching the Wolverhampton district. The storm apparently passed over Hazel Grove, Cheshire, in a less developed state about three hours previously. It forms the counterpart of the storm responsible for the Notting-hamshire damage described below ...”*

Doedd dim son am derfysg (mellt a tharannau) fel arall y diwrnod hwn yn y Tywyddiadur. Oes atgofion o ddigwyddiadau tebyg yng Nghymru tybed?

## Y jibinc a cheidwad y ffenestr








Y Ji-binc yma, wrthi ar ein ffenestri ‘tha diawl ers ychydig o ddyddiau rwan. Mi roedd Bran wrthi rhai blynyddoedd yn ôl hefyd. Tegan Tylluan y plant stopiodd o. Adlewyrchiad? Mae gwarchodwr y ffenestri ac adar yn ei le nawr. Ji-binc wedi mynd! Da de!

**Keith Jones**

## Be’ di mymryn o rew i lyffant?




Llyffant yn eistedd ar y rhew ger copa Godor ym mryniau’r Berwyn dydd Iau, 8 Ebrill. Meddwl fod o wedi rhewi tan iddo neidio i’r dŵr oer a nofio i ffwrdd! Llawer o grifft llyffant o dan y rhew a llyffantod eraill yn hollol llonydd yn y dŵr.

Roedd y pwll hwn dros 2000 o droedfeddi uwchlaw lefel y môr ond roedd yr haul yn taro’n gynnes er fod y gwynt yn oer. Mae’n debygol fod y llyffant yn torheulo i geisio cynhesu chydig cyn i ni ei ddychryn yn ôl i’r dŵr. Rwy’n siwr fy mod wedi darllen yn rhywle fod y grifft yn medru goroesi er i’r dŵr rewi gan fod y wyau yn cynnwys ryw fath o “antifreeze” i warchod yr embryo. Hyn yn rhoi mantais i’r llyffantod ddodwy yn gynnar yn y flwyddyn ac osgoi rhai o’u gelynion sy’n methu gwrthsefyll yr oerfel cystal. **John Owen**

**Wele hanes ‘wyrdroedig’ llyffantod yn y graff gwanwyn ar y dudalen nesaf**

**Dilynwch a chyfranwch i Cymuned Llên Natur ar Facebook**




**1** Grifft cyntaf Llanddona (1998) a Hwlffordd (2018): awgrymu bod llyffantod yn ymateb y dywydd ffafriol "ddoe", nid cyfnod o wres, efallai yn syth ar ddiwedd cyfnod oer.

**2** Diwrnod cynhesaf Ionawr ers i mi ddechrau cofnodi (17C Llanfairfechan)

**3** Tywydd cynnes iawn yn llundain max 14.5?tua diwedd y tywydd cynnes, llwch y Sahara, Rhys yn dweud bod uy ffenestri i gyd yn fudr 16 2 98 47

**4** 1-4 Ionawr 1998 ; cyfnod stormus iawn yn enwedig yn y de

**5** Cynnes iawn, llwch o'r Sahara ar y ffenstri

**6** Eira dros yr ardd, Waunfawr

**7** Dail Masarn dechra agor. Harlech (14 Ebrill eleni)


**8** Cnocell werdd yn "chwerthin" canu

**9** Blodau cyntaf y craf y geifr

**10** Llygad Ebrill yn blodeuo Bangor

**Mae'r cofnodion hyd wedi eu cywain ar hap a damwain ac yn dangos nad yw planhigion yn ymddwyn yn ôl y disgwyl pob tro**

data gorsaf dywydd Llansadwrn





**Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd**

**(Rhif Elusen: 1126027)**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia
Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.co.uk

## HENDRE WEN  ddoe a heddiw (mwy...)




Steve Roddick biau'r campwaith uchod o fap.  Mae'r lliwiau cryf yn dangos y ffordd a'r adeiladau newydd wedi eu gosod ar ben yr hen fap. Ysgol newydd Awel y Mynydd sydd ar y chwith.

Dyna 'sa dda ynde, llunio un o rhain i bob un fferm hanesyddol yng Nghymru (yn enwedig y rhai sydd a hanes fanwl dyddiadur yn perthyn iddynt)....

Dilyniant yw hwn ar Rifyn 118 tudalen 4

A chymryd bod y dystiolaeth ffiniau ar yr orddalen fodern ar fap Steve yn gywir gellir gweld colli sawl terfyn cae oddifewn i ffiniau'r fferm. Dyma nhw:

Cae Penyffordd >< Weirglodd
Gors >< Gwaen Fynydd
Weirglodd >< Gwaen Fynydd

Mae gweddill y ffiniau mewnol yn dal i sefyll (c15 ohonynt). Colled o 20% mewn canrif.

Hefyd collwyd y llwybr at yr Hendre dros Cae Glas

CAE FALLAN = cae afallen? Gwerth cadarnhau yr un pryd os oes bren afal yn tyfu yn y cyffinau heddiw.

Fasai'n brosiect da i fynd i weld ar y ddaear a ydy'r mapiau yn gywir.

## O'r tiriaethol i'r haniaethol - ymateb



**Helen Parfitt**

## O'r tiriaethol i'r haniaethol






Wrth fynd i fewn i rhai lluniau yn agos iawn gallwn werthfawrogi fwy fyth prydferthwch y llun gwreiddiol.

Dyma luniau Gill Brown (y gloyn ar y brig) ac Aled Jones (gwyfynod i gyd: corn carw, gwyfyn cennog a fforch arian) (Bwletin 21).






*Mae rhain yn gyfaddasiadau o luniau mwy a gyhoeddwyd eisoes, felly hepgorwyd cynnwys lleoliadau a'r manylion arferol eraill.*

## Fe ddaeth haul ar fryn - o’r diwedd!


bresych y cwn  4 Ebrill  Lon Las Ogwen


castanwydden, 3 Ebrill, Cwm Tawe



eglyn cyferbynddail
4 Ebrill, Lon Las Ogwen


madfall cyffredin  2 Ebrill  Tudweiliog


magnolia   3 Ebrill  Cwm Tawe


milfyw  3 Ebrill  Tudweiliog


pry hofrol *Eristalis* a dail masarn
3 Ebrill  Llangian


Cypresswydd *Leylandii*
1 Ebrill  Rhydychen

**Cofnodion cyntaf y flwyddyn yw rhain - pa mor hwyr yw ‘hwyr’?**
Yn dilyn dyma gofnodion cynharaf pob un cyn eleni o’i gymharu a dyddiad cyntaf ei weld eleni:

bresych y  cwn 15 Mawrth 2016 (hwyr eleni); castanwydden y meirch 27 Mawrth 1905 swydd Warwick (fymryn yn hwyr efallai); eglyn cyferbynddail 16 Ebrill 1980 (arferol?); madfall 1 Mawrth 1926, Norfolk (hwyr); magnolia 19 Mawrth 2017, Bodnant (hwyr); milfyw 10 Mawrth 2012, Beddgelert (hwyr); pry hofrol *Eristalis* 13 Mawrth 2016 (hwyr); Leylandii (dim data),

Braslun yn unig yw hyn. Mae’r dyddiadau ‘cynharaf’ yn debyg o fod yn eithriadol o gynnar fel mae rhai eleni efallai yn eithriadol o hwyr. Fel mae’r data yn ymgrynhoi yn y Tywyddiadur bydd ansawdd y canlyniadau yn gwella.

## Gwarchae o grehyrod



Ger y Fenai. Gwarchae o grëyr. Diwedd mis Chwefror ar ddiwrnod gwlyb braidd. **Derec Owen**

Llyffantod yn paru a dodwy o bosib, a'r crehyrod yn gweld eu gwyn

## ...a do, fe ddaeth y gwanwyn!



Gwennol gynta'r tymor i ni a nifer o aelodau eraill Cymdeithas Ted Breeze Jones yng ngwarchodfa'r RSPB, Ynys Hir ddydd Sadwrn 7 Ebrill 2018.

## ...ac fe gliriodd y niwl!



Ar ôl niwl ben bore yn Nyffryn Clwyd ac ar Fynydd Hiraethog o leiaf 5 par o ylfinirod ger Llyn Aled Isaf a 2 Dinwen y Garn. **Alun Williams**

## Twyll y fronfraith




*"Quick, said the bird, find them, find them,*
*Round the corner. Through the first gate,*
*Into our first world, shall we follow*
*The deception of the thrush? Into our first world."*

**TS Eliot (The Four Quartets - Burnt Norton)**

Lon Las Menai, Caernarfon 15 Ebrill 2018 **Gill Brown**

## Crec cynnar Trawsfynydd



Crec yr Eithin (cynnar?) ar Feidiogydd Trawsfynydd 22 Ebrill 2018.

**Keith O'Brien**


Cynnar iawn faswn i'n ddweud. Does yna ddim cofnodon Ebrill crec yr eithin na winchat yn y Tywyddiadur a 7 ym mis Mai. Y cynharaf yw 3 Mai yn Swydd Down, Iwerddon, yn 1889.

## SPARion rhywun?




Ymwelydd cyson i Spar Aberdaron! 22 Ebrill 2018 (ers o leiaf 9 Ebrill 2011 pan dynwyd llun ohono ddiwethaf.) Roedd crëyr (yr un un?) wedi arfer dod pob bore i fegian

## Tiede: 'Wyddfa' Teneriffe... 'Ben Nevis' Sbaen!



Mynydd Tiede dan eira, Teneriffe, 27 Chwefror eleni. Tynnwyd ar ymweliad Ann Corkett a Bruce Griffiths.

Gan fod hwn yn le mor boblogaidd mae'n siwr bod digon o luniau o Tiede (eira neu heb) allan yn fan'na. Dewch a nhw... (cofiwch ddweud PRYD)



Dyma'r diweddar Ieuan Roberts hefyd ar destun y mynydd hwn:

"Yn dilyn storm enfawr ar y 4ydd o Fawrth 2013 roedd gorchudd trwchus o eira o thua 7000 troedfedd uwch y mor hyd y copa ar 12198 troedfedd ar Fynydd Teide, mynydd uchelaf Sbaen, Ynys Tenerife. Roeddem yn cerdded hyd 8500 troedfedd ar y 3ydd gyda ambell damaid o eira yno pryd hynny. Fe barodd yr eira weddill yr wythnos er bod y tymheredd hyd 24 gradd canradd ger y môr." **Ieuan Roberts**

3/3/2013
Storm ofnadwy yn Tenerife. Yr awdurdodau yn rhybuddio i gadw rhag teithio diangenrhaid. **Ieuan Roberts**

Ond fel hyn y bu hi yn ôl adre:
3/3/2013 Rhostryfan: Diwrnod arall gwerth chweil - fel ddoe. Bum yn garddio drwy'r dydd ddoe a braf gwneud hynny yn swn yr adar yn canu.Dim golwg o grifft byth ond haen o rew ar wyneb y pwll bob bore.Y blagur yn chwyddo ar y llwyni. Noson arall oer heno a son fod y glaw ar ei ffordd erbyn dydd Mercher. **Olwen Evans**

**Peidiwch anghofio eich lluniau gwyliau - mae gwerth iddynt i Llên Natur**

## Brain pig melyn eofn yr Alpau



Brain coesgoch pig melyn yn ddiofn ddwyn bwyd oddiar blatiau ar ben y Gornergrat, ger Zermatt. Sgwn i pam fod y rhai Cymreig mor swil? Diffyg spaghetti yng Nghymru, efallai !! **Iolo ap Gwyn**

Gwylanod yn achub y blaen arnyn nhw yma! **William Owen**

## Titwod talcen melyn nôl adre



Titw Tomos diddorol iawn ym Mhwlleli heddiw [12 Ebrill 2018] plu bach melyn o amgylch ei big.

**Bethan Vaughan Davies**

Rhyfedd Bethan, roedd yna ditwod glas yn dod i fyrddau caffi'r Gath Ddu yng Nglynllifon ddydd Sul i nôl briwsion ac roedd un ohonyn nhw efo talcen a gên fach melyn, fel hwn. Rioed wedi sylwi o'r blaen amser yma o'r flwyddyn. Tybed ai adar bron yn flwydd oed ydi rhain (y melyn yn weddillion eu gwisg cynnar)?

Ond na... dyma'r ateb yn dod o'r diwedd...

Paill ydi'r lliw melyn o amgylch y pig. Yr amser yma o'r flwyddyn, paill gwyddau bach yr helyg efallai (llun ar y dde). **Iolo Williams**

**Pwy sylwodd ar lwch ar y ceir yn dilyn y glaw dros nos, bore'r 22 Ebrill?**

# Codau wyau

## siarcod a chathod môr ar y traeth

### Siarcod a chŵn môr




### Cathod môr




SHARK TRUST

Great Eggcase Hunt

www.eggcase.org

**"Llygad y Dydd": adnodd i athrawon. Rhannwch.....**